

Y Rhyfel Byd Cyntaf : The First World War

Pandy Tudur

Y Milwyr a Ddaeth Adref • The Soldiers Who Returned

Edward Roberts, Felin Pandy Tudur. Ganed Edward Roberts yn 1882, y 6ed o'r wyth plentyn a aned i'r melinwr Robert Roberts a'i wraig Mary Roberts, a briododd yn Lerpwl, cyn symud i Felin Einion, Efenechdyd. Yna daethant i Felin Pandy Tudur, lle ganed Edward. Collodd ei fraich yn ystod y rhyfel ond cafodd fraich osod gyda bachyn ar ei phen.

Francis Jones, Pen y Fedw. Ganed ef ym Mhandy Tudur ar 1-2-1893, yn un o'r 6 phlentyn a aned i Richard a Jane Jones. Symudodd i Bootle, o ble yr ymunodd â'r fyddin yn y 'R.W.F' (rhif 36534). Clwyfwyd ef ym mis Medi 1917. Tra oedd mewn ysbyty, cyfarfu â nyrs o'r enw Laura o Gaernarfon, a bu iddynt briodi a chael dwy ferch.

William Richard Parry, Penddaerdor. Wedi i'r teulu symud o Dan y Castell buont yn byw yn Penddaerdor, lle magwyd William. Bu farw dau frawd iddo yn 1918, un o niwmonia dwbl, a'r llall o'r ffliw. Goroeddodd William y rhyfel a'r ffliw ac wedi priodi bu'n byw gyda'i deulu yn Twlc, Llangernyw.


John Robert Morris, Glan Dŵr Terrace. Priododd â Sarah Ann Williams yn Eglwys Llanddewi ar 10-7-1897, a'r flwyddyn ganlynol ganed eu mab Harold. Ymrestrodd y tad a'i fab yn y fyddin. Lladdwyd Harold yn Ffrainc yn 1916, ond fe oroesodd John Robert Morris, er iddo yntau gael ei glwyfo yr un flwyddyn. Wedi'r rhyfel, aethant i fyw i Fron Gallen, Llangernyw.

Richard Thomas Jones, Ty'n y Ffynnon. Ganed ef yng Nghwm Penmachno, tua 1888, y pedwerydd o'r chwe phlentyn a aned i Richard a Margaret Jones. Ar droad y ganrif symudodd y teulu i Ty'n Ffynnon, Pandy Tudur. Ar wahan i'w gyfnod yn y fyddin, gweithio mewn banc y bu trwy gydol ei oes, yn gyntaf ym Mhenbedw ac yn ddiweddarach yn Bootle.

John Robert Jones, Ty'n y Ffynnon. Roedd yn frawd i Richard (uchod) ac yn 5ed plentyn i'r teulu. Ymrunodd â'r fyddin ar 11-11-1914. Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 1915: "Mae Mr. J. R. Jones, Bootle gynt, a Llundain ar ôl hynny, wedi ei ddyrchafu i fod yn Second Lieutenant yn y 17th Batt., Royal Welsh Fusiliers, sydd yn awr yn Llandudno". Collodd ei fraich chwith yn y rhyfel. Erbyn 1919 roedd wedi gwella ac yn ôl yn Llundain.

Thomas Morris, Glan Dŵr. Priododd â Mary a buont yn byw yn 2 Glan Dŵr. Merch iddo oedd Falmai, Pen y Bont gynt.

William Williams, Llwyn Du Uchaf. Ganed ef ar 29-4-1896 yn fab i David a Jane Williams, Llwyndu Uchaf. Bu farw ei fam pan oedd yn 3 oed, ac fe'i magwyd gan ei nain. Daeth yn ôl i Lwyndu yn ei ardegau a phan oedd yn 19 oed ymrestrodd â'r fyddin. Ni fu'n ymladd yn y rhyfel, ond fe'i gyrrwyd drosodd i Ffrainc i hel y cyrff Prydeinig oddi ar y traeth. Wedi'r rhyfel daeth yn ôl i ffarmio Lwyndu.



Francis Jones



Richard Thomas Jones



John Robert Jones



William Williams

Edward Roberts, Felin Pandy Tudur. Edward Roberts was born in 1882, the 6th of eight children born to the miller Robert Roberts and his wife Mary Roberts, who married in Liverpool, before moving to Felin Einion, Efenechdyd. They then came to Felin Pandy Tudur, where Edward was born. He lost an arm during the war but received an artificial arm with a hook as his hand.

Francis Jones, Pen y Fedw. He was born in Pandy Tudur on 1-2-1893, one of 6 children born to Richard and Jane Jones. He moved to Bootle, from where he joined the army and the R.W.F. (no. 36534). He was wounded in September 1917. Whilst in hospital, he met a nurse named Laura from Caernarfon, and they married and had two daughters.

William Richard Parry, Penddaerdor. Following the family's move from Tan y Castell they lived at Penddaerdor, where William was brought up. Two of his brothers died in 1918, one from double pneumonia, and the other from influenza. William survived the war and the flu and following his marriage he lived with his family at Twlc, Llangernyw.

John Robert Morris, Glan Dŵr Terrace. He married Sarah Ann Williams at Llanddewi Church on 10-7-1897, and their son Harold was born the following year. Both father and son enlisted in the army. Harold was killed in France in 1916, but John Robert Morris survived, although he was also injured the same year. Following the war, they went to live at Fron Gallen, Llangernyw.

Richard Thomas Jones, Ty'n y Ffynnon. He was born in Cwm Penmachno, about 1888, the fourth of six children born to Richard and Margaret Jones. At the turn of the century the family moved to Ty'n Ffynnon, Pandy Tudur. Apart from his period in the army, he worked in a bank throughout his life, firstly at Birkenhead and later at Bootle.

John Robert Jones, Ty'n y Ffynnon. He was the brother of Richard (above) and the 5th of the family's children. He joined the army on 11-11-1914. It was reported in June 1915: Mr. J. R. Jones, formerly of Bootle, and more recently of London, has been promoted to Second Lieutenant in the 17th Batt., Royal Welsh Fusiliers, which is now in Llandudno. He lost his left arm in the war. By 1919 he had recovered and was back in London.

Thomas Morris, Glan Dŵr. He married Mary and they lived at 2 Glan Dŵr. Falmai, formerly of Pen y Bont, was his daughter.

William Williams, Llwyn Du Uchaf. He was born on 29-4-1896, the son of David and Jane Williams, Llwyndu Uchaf. His mother died when he was 3 years old, and he was brought up by his grandmother. He returned to Lwyndu in his teens and enlisted in the army when he was 19. He did not fight in the war, but was sent over to France to recover British corpses from the beach. At the end of the war he returned to farm Lwyndu.

